Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Pontsian

**Pont-Sian**
**Llandysul**
**Ceredigion**
**SA44 4UB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Gareth Wyn Jones**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentef Pontsian yn Nyffryn Clettwr. Ysgol gymunedol ddwyieithog yw Ysgol Pontsian yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig o amgylch. Mae 36 o ddisgyblion llawn amser, rhwng 4 ac 11 oed, ar gofrestr yr ysgol ac maent wedi eu trefnu mewn dau ddosbarth.

Cymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartref gan oddeutu traean y disgyblion, gyda'r gweddill â'r Saesneg yn famiaith iddynt. Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Disgwylir i bob disgybl fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2).

Yn ôl yr ysgol, nid yw'r ardal dan anfantais cymdeithasol nac economaidd, nac yn freintiedig, ac mae gan 14% o ddisgyblion hawl i gael prydau am ddim. Mae hyn ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nodwyd bod 25% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n ychydig uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae un ohonynt â datganiad o AAA.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Pontsian yw £3743, sy'n cymharu ag uchafswm o £24,095 ac isafswm o £2741 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngheredigion. Gan yr ysgol y mae'r 29ain cyllideb uchaf fesul disgybl o'r 63 ysgol gynradd yng Ngheredigion.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Mawrth 2005. Ers hynny mae'r ysgol yn rhan o gynllun anffurfiol o ffederaleiddio gydag Ysgol Uwchradd Dyffryn Teifi.

Mae Pennaeth Dyffryn Teifi yn Brifathro Gweithredol ar Ysgol Pontsian ers Medi 2009, gyda pennaeth gynorthwyol wedi'i lleoli ar safle'r ysgol gynradd o'r cyfnod hwnnw.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd bod:

- disgyblion o alluoedd gwahanol yn gwneud cynnydd da;
- sylw manwl yn cael ei roi i les y disgyblion;
- y disgyblion yn cael budd o gwricwlwm diddorol ac amrywiol;
- ethos croesawgar iawn sy'n sicrhau bod pob disgybl yn hapus ac yn ddiogel;
- y disgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol da;
- cysylltiadau da â rhieni a'r gymuned;
- yr arweinyddiaeth yn gadarn;
- y llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn drylwyr ac yn herio penderfyniadau;
- yr ysgol yn rhoi sylw addas i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

### Rhagolygon gwella

- Gwnaed cynnydd sylweddol ar y materion oedd angen sylw yn yr adroddiad arolygu diwethaf.

- Bu safonau'n gadarn yn ystod y tair blynedd ddiwethaf yng nghyrhaeddiad disgyblion ym mhynciau craidd Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.

- Caiff yr ysgol ei harwain yn effeithiol ac mae ganddi ymdeimlad clir cytunedig o bwrpas a chyfeiriad.  Mae'r tîm arolygu yn hyderus y gall yr ysgol wneud gwelliannau pellach.

## Argymhellion

Mae angen:

A1 parhau gyda'r safonau da presennol ac anelu at safonau rhagorol;

A2 cyfoethogi'r ddarpariaeth allanol ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen;

A3 gwella ansawdd llawysgrifen, yn enwedig ymhlith bechgyn CA2, a

A4 sicrhau sylw i'r materion iechyd a diogelwch a drafodwyd yn ystod yr arolygiad.

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredol sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae lefelau medrau sylfaenol y mwyafrif o'r disgyblion yn uwch na'r cyfartaledd disgwyliedig.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, sef dosbarth derbyn Medi 2009. Oherwydd y nifer fach o ddisgyblion sy'n aml ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon yn ofalus, oherwydd mewn rhai blynyddoedd, gall canlyniadau un disgybl effeithio'n sylweddol ar berfformiad cyffredinol yr ysgol.

Er 2007/2008 yn CA1, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni y dangosydd pwnc craidd (DPC) (y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) yn uwch na'r cyfartaledd a gyflawnir gan ysgolion a chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Yn CA1 eto, mae cyrhaeddiad ym mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion eraill yn eu teulu ac yn y chwartel uchaf yn 2008/9 a 2009/10. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r norm disgwyliedig yn well na'r teulu o ysgolion yn y pynciau hyn.

Er 2007/2008 yn CA1, mae cyrhaeddiad yn y Gymraeg iaith gyntaf wedi amrywio rhwng y chwartel isaf a'r chwartel uchaf. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched yn CA1, er na wnaeth bechgyn gyflawni llawn cystal â'r merched yn y Gymraeg yn 2010.

Yn CA2, er 2007/2008, ac eithrio 2008/2009, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni y DPC wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd a gyflawnir gan ysgolion â chanrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae canlyniadau CA2 yn uwch na'r Sir a Chymru ymhob mesur yn 2009/2010, ond yn enwedig felly ym mathemateg a gwyddoniaeth.

Mae tuedd o welliant cyffredinol yng nghyflawniad disgyblion yn y pynciau craidd yn CA2 rhwng 2007/2008 a 2009/2010 er bod canran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r norm disgwyliedig yn is na'r teulu o ysgolion yn y pynciau hyn, ac eithrio Saesneg.

Yn CA2, nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched, er na wnaeth y merched gyflawni llawn cystal â'r bechgyn yn y Gymraeg yn 2010.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau allweddol. Maent yn gwrando'n astud, yn siarad yn glir ac yn darllen yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae gwaith ysgrifennu y disgyblion yn effeithiol wrth ysgrifennu at wahanol ddibenion ond nid oes cymaint o ysgrifennu estynedig i'w weld yn eu gwaith. Gwnânt ddefnydd priodol o dermau technegol ac maent yn trefnu eu gwaith yn effeithiol er bod llawysgrifen lleiafrif o'r bechgyn yn CA2 yn aflêr.

Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd mewn rhifedd ac mae'r mwyafrif yn defnyddio eu medrau yn dda ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn arddangos medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) da ac mae safonau dwyieithog y disgyblion i gyd yn dda. Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad is-grwpiau o ddisgyblion.

**Lles: Da**

Mae'r holl ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r disgyblion yn gweithio'n galed, yn cyfrannu'n frwd mewn gwersi ac yn gwneud eu gorau glas. Mae'r disgyblion yn weithredol yn eu gwersi ac, ar adegau, yn gwneud penderfyniadau sut i wneud eu gwaith a'i gyflwyno.

Mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn dweud mai ychydig iawn o fwlio neu aflonyddu sy'n digwydd. Lle mae'r achosion hyn yn codi, mae'r disgyblion o'r farn bod yr ysgol yn mynd i'r afael â nhw mewn modd effeithiol. Nid oes achos o eithrio disgybl o'r ysgol dros y tair blynedd diwethaf.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion wybodaeth drylwyr am yr hyn sy'n gwneud ffordd iach o fyw. Maent yn bwyta'n iach yn yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol.

Mae presenoldeb y tair blynedd ddiwethaf dros 95.6% ac yn gosod yr ysgol yn y chwarter uchaf wrth gymharu gydag ysgolion tebyg ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyn. Mae prydlondeb yn dda .

Mae'r Cyngor Ysgol, sydd hefyd yn Bwyllgor Eco, yn effeithiol ac yn gwneud awgrymiadau gwerthfawr ar sut i wella'r ysgol. Mae cadeirydd y corff llywodraethol yn mynychu'r cyfarfodydd yn aml.

Mae'r disgyblion yn gwrtais a chyfeillgar ac mae eu hymddygiad yn hynod o ddisgybliedig. Mae gofal y disgyblion hŷn am y plant ieuengaf yn nodwedd gref o'r ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau sydd yn ateb gofynion disgyblion unigol a gofynion statudol y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r cwricwlwm yn CA2 yn adeiladu ar brofiadau'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a CA1 yn llwyddiannus ac mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sydd ag AAA yn addas.

Mae'r athrawon yn cynllunio rhaglenni gwaith hyblyg gyda nodau ac amcanion priodol ym mhynciau y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae cynlluniau gwaith priodol gogyfer â phob pwnc ar gyfer y ddau ddosbarth.

Rhoir sylw da i feithrin medrau a sgiliau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o strategaethau sgiliau meddwl, gan annog y disgyblion i bwyso a mesur yr opsiynau cyn dod i benderfyniad. Caiff disgyblion gyfleoedd cynyddol i ddatblygu eu medrau TGCh.

Mae'r ysgol yn darparu yn effeithiol iawn ar gyfer Y Cwricwlwm Cymreig a Chymraeg (iaith gyntaf). Trefnir y dosbarthiadau yn ofalus i ymateb i ofynion disgyblion o oedrannau a galluoedd gwahanol yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2.

Mae'r ysgol yn cyflwyno gwaith diddorol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy, gan ennill y faner werdd ddwy waith. Mae gwaith yr ysgol ar ddinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n briodol.

**Addysgu: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o ddulliau a strategaethau addysgu sy'n sicrhau bod y disgyblion yn cael eu cymell a'u hysgogi i wneud cynnydd da.

Mae gan athrawon wybodaeth bynciol hyfedr ac maent yn fodelau iaith da ac yn annog y disgyblion i siarad yn gywir a hyderus. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd priodol a thrylwyr o'r adnoddau. Maent yn benthyg arteffactau o gasgliad lleol ac o'r ysgol uwchradd leol er mwyn cyfoethogi profiad y disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o dechnoleg i hybu'r addysgu yn y ddau gyfnod allweddol.

Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i lwyddo ym mhob gwers ac mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar safonau gwaith. Mewn rhai achosion, mae'r disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain yn effeithiol. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n gywir, er yn gyffredinol, na roddir digon o gyfrifoldeb ar y disgyblion i wella eu gwaith. Mae gweithdrefnau addas i gofnodi cynnydd a chyflawniadau disgyblion ac adrodd i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar sydd â disgwyliadau a rheolau sy'n cael eu deall yn glir. Mae gan yr ysgol bolisïau a threfniadau priodol ar gyfer hyrwyddo byw yn iach a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer Cam 2 Cynllun Ysgol Iach ac mae'r Cyngor Ysgol/ Pwyllgor Eco yn cefnogi'r bwriad yma yn effeithiol trwy ofalu am siop ffrwythau yr ysgol. Mae'r siop yn cael ei rheoli'n dda gan y disgyblion ac mae'r elw sylweddol yn cael ei ddefnyddio er budd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus drwy ystod o brofiadau diddorol.

Darperir gwybodaeth ddefnyddiol i'r rhieni gan gynnwys gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â cwynion. Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion yn effeithiol iawn ac mae pob disgybl yn cael cymorth ac arweiniad priodol. Gwneir defnydd aml o asiantaethau amrywiol i hybu gwybodaeth y disgyblion am faterion megis diogelwch, iechyd a hylendid.

Mae gan yr ysgol bolisi a systemau priodol ar gyfer diogelu disgyblion ac mae'r ysgol yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn; mae cyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir. Mae'r ysgol yn dilyn y polisi sirol mewn perthynas ag asesiadau risg. Cymer y camau priodol i sicrhau diogelwch y safle, er bod rhai materion bach sydd angen sylw.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn drylwyr. Cedwir cofnod manwl o'r disgyblion a'u hanghenion gan gynnwys Cynlluniau Addysg Unigol addas. Caiff eu cynnydd ei asesu'n rheolaidd a chaiff y targedau ar gyfer gwella eu cyrraedd yn aml. Mae gweithdrefnau adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn amgylchedd diogel, a chroesawgar ar gyfer pob disgybl. Mae’n gymuned gwbl gynhwysol ac yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob un ohonynt. Mae’r cwricwlwm yn hygyrch i bawb ac mae hyn yn galluogi pob disgybl i fanteisio’n dda ar bob agwedd o’r profiadau addysgol sydd yn cael eu darparu. Mae pob disgybl yn datblygu ei ddealltwriaeth o ddiwylliannau a chrefyddau gwahanol yn briodol ac mae’r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol ym mhob achos.

Mae’r ysgol yn lle pleserus a chroesawgar ac mae’r ystafelloedd dosbarth a’r neuadd fach wedi eu haddurno’n ysgogol a diddorol iawn gyda gwaith y disgyblion a deunydd addysgiadol pwrpasol. Gwna’r ysgol ddefnydd effeithiol o’r adeilad. Er hyn, mae yn gyfyng ac, ar brydiau, mae yn dioddef o ddŵr yn gollwng trwy’r to a thrwy’r waliau. Mae’r gofod tu allan ac adnoddau awyr agored ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen yn gyfyng.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r pennaeth gweithredol yn arweinydd effeithiol sy’n sicrhau safonau uchel. Mae wedi meithrin ymdeimlad cryf iawn o gydweithio gyda’r holl staff i greu ethos cadarnhaol. Llwydda’r pennaeth gynorthwyol ar y safle i sicrhau rhediad esmwyth iawn yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae swydd-ddisgrifiadau yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau’r staff. Mae’r athrawon yn rhannu’r cyfrifoldebau am bynciau a meysydd.

Mae’r ysgol yn rhoi sylw manwl i Reoli Perfformiad ac mae’r deilliannau yn bwydo’r Cynllun Gwella Ysgol (CGY). Mae’r trefniadau datblygiad proffesiynol a sesiynau hyfforddiant ar gyfer pob aelod o’r staff yn darparu cyfleoedd addas i bawb ennill medrau newydd a myfyrio ar arfer effeithiol. Rhoddir sylw priodol i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae’r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda, ac mae adnabyddiaeth y Cadeirydd ohoni yn arbennig o drylwyr. Mae ganddi ddealltwriaeth fanwl o’i chyfrifoldebau ac mae’n cydweithio’n agos gyda’r pennaeth i osod cyfeiriad strategol priodol i ddatblygiad yr ysgol. Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i’r ysgol ac yn herio penderfyniadau; maent yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gyflawniad disgyblion ac am ansawdd y dysgu a’r addysgu.

Mae barn y disgyblion yn dylanwadu ar agweddau o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r ysgol hefyd yn ystyried barn rhieni wrth gynllunio ymlaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r gyfundrefn hunanarfarnu yn gynhwysfawr; defnyddir ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol o ddysgu ac addysgu. Mae cysylltiad agos â'r CGY sy'n cynnwys targedau clir a meini prawf i'w mesur. Mae rôl a chyfraniad yr holl staff i'r trefniadau yn glir. Rhoddir ystyriaeth deilwng i farn y disgyblion a'r rhieni. Mae'r barnau hyn yn gymorth i bennu cryfderau a meysydd ar gyfer gwella.

Mae gan yr ysgol drosolwg addas o'r meysydd y mae wedi'u nodi ar gyfer gwella. Mae'r CGY yn nodi nifer fawr o flaenoriaethau ar gyfer gwella, ac mae cost, amserlen a chyfrifoldebau staff wrth ymateb i bob blaenoriaeth wedi'u nodi'n glir.

Mae ymdrech barhaus gan y pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol i wella ar berfformiad blaenorol yr ysgol ac mae arwyddion clir bod safonau yn parhau i godi, yn enwedig mewn iaith.

Gwnaed cynnydd arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys yr angen i roi sylw i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang.

Manteisir ar y cyswllt gyda'r ysgol uwchradd leol i rannu profiadau a chyfnewid arferion. Mae'r trefniadau dalgylchol i gydweithio ar gynllunio cwricwlaidd yn cyfrannu'n dda at gryfhau'r diwylliant o gyd-drafod rhwng yr ysgolion ar faterion proffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau strategol defnyddiol. Mae perthynas gref â'r rhieni a chysylltiadau clos hefyd gyda'r gymuned leol, sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar ansawdd yr addysg. Cefnogir yr ysgol yn effeithiol gan wasanaeth addysg yr awdurdod unedig. Mae cysylltiadau gydag elusennau ac asiantaethau amrywiol yn hybu lles y disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei hyrwyddo trwy'r cwricwlwm.

Mae cyswllt gydag ysgolion cynradd lleol i rannu profiadau a chyfnewid arferion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd yr ardal i gymedroli asesiadau yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda'r ysgol uwchradd leol er mwyn paratoi'r disgyblion hŷn yn briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

At ei gilydd, mae gan yr ysgol adnoddau digonol o ansawdd da. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer ardal allanol y Cyfnod Sylfaen yn ddigonol i sicrhau amrywiaeth o brofiadau addas.

Mae gan yr ysgol staff brwdfrydig sydd yn gymwys i addysgu'r cwricwlwm yn llawn. Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol. Defnyddir staff cefnogi dysgu yn effeithiol. Mae'r corff llywodraethol a'r pennaeth yn gweinyddu'r gyllideb yn briodol. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i holiaduron rhieni

Llanwyd yr holiadur gan bron i hanner y rhieni. Maent yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'r ysgol ar y cyfan. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon â'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn hapus yno ac wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda. Mae llawer ohonynt yn teimlo'n gyfforddus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Mae bron pob un ohonynt yn credu bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod yr addysgu yn dda. Mae'r mwyafrif o'r rhieni yn credu bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. Maent o'r farn bod y staff yn bobl hawdd mynd atynt os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon. Er hyn, nid yw lleiafrif yn sicr ynglŷn â gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae'r mwyafrif yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant. Mae lleiafrif bach o'r rhieni yn teimlo nad yw'r disgyblion yn ymddwyn yn dda.

### Ymatebion i holiaduron dysgwyr

Llanwodd y mwyafrif o ddysgwyr CA2 yr holiadur ac roeddent yn hapus â'u hysgol. Mae pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn credu eu bod yn gwneud cynnydd da ac yn gwybod ble i gael cefnogaeth gydag unrhyw ofid am eu gwaith. Mae'r mwyafrif yn credu bod gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella gwaith yn yr ysgol. Maent i gyd yn ymwybodol eu bod yn cael eu cefnogi yn dda gan athrawon ac oedolion eraill i wneud cynnydd. Mae'r disgyblion yn credu bod digon o adnoddau i'w galluogi i ddysgu'n dda. Er hyn, mae lleiafrif bach yn teimlo nad oes digon o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae'r mwyafrif yn credu bod ymddygiad yn dda er bod lleiafrif bach yn credu nad yw'r plant i gyd yn ymddwyn yn dda amser chwarae a chinio.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Gareth Wyn Jones | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Phil Mostert | Arolygydd Tîm |
| Mr Meic Francis | Arolygydd Lleyg |
| Ms Catrin James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Aeron Rees | Enwebai'r Ysgol |

**Contractwr:** Cwmni Cynnal
Uned Dechnoleg
Stryd y Bont
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7HL

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |